

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Polisi Cynnal a Chadw a Gorfodi Hawliau Tramwy

Cyhoeddus



Cyflwyniad

Ceir dros 850km o hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffylau a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig. Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor, yn unol ag Adran 130 Deddf Priffyrdd 1980, i ddatgan a gwarchod hawliau'r cyhoedd o ran defnyddio a mwynhau hawliau tramwy ac i atal unrhyw un rhag cau neu rwystro'r hawliau tramwy cyhoeddus hyn heb awdurdod.

Y nod yw sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus mewn cyflwr diogel a bod y cyhoedd yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith ymarferol i'w cynnal a'u cadw. Pan fo problemau gorfodi yn digwydd, bydd yn defnyddio cyngor, perswâd, camau gweithredu uniongyrchol a/neu erlyniad i'w datrys.

Er mwyn osgoi problemau gorfodi, bydd y Cyngor yn darparu cyngor, cymorth ymarferol ac arweiniad i helpu tirfeddianwyr a deiliaid gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth, addysg a chyngor i'r rheiny sy'n dymuno defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn Wrecsam.

Mae rheoli swyddogaeth cynnal a chadw a gorfodi hawliau tramwy cyhoeddus wedi'i lywodraethu ar lefel genedlaethol, yn bennaf drwy ddeddfwriaeth statudol Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ac amrywiaeth o reoliadau, canllawiau a pholisïau llywodraeth ganolog.

Blaenoriaethu Gwaith Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae'r tabl canlynol yn dangos y system categorïo ar gyfer llwybrau. Oherwydd diffyg adnoddau, mae angen blaenoriaethu problemau ar y rhwydwaith drwy farnu difrifoldeb y broblem a chategori'r llwybr. Byddwn yn trin unrhyw broblem sy'n achosi risg ddifrifol i iechyd a diogelwch y cyhoedd fel blaenoriaeth uchel. Byddwn yn archwilio problemau yn ôl y categorïau isod, gan roi'r flaenoriaeth i llwybrau Blaenoriaeth 1.

Blaenoriaeth	Disgrifiad
1	Materion diogelwch y cyhoedd Er enghraifft: unrhyw broblem a all achosi anaf; pontydd peryglus, teirw ac anifeiliaid peryglus eraill, adeileddau peryglus Bydd problem dan y categori hwn yn cael ei harchwilio o fewn 72 awr o dderbyn cwyn.
2	Rhwystrau a dyletswyddau statudol Er enghraifft: rhwystrau sy'n atal y cyhoedd rhag defnyddio llwybr, difrod difrifol i arwyneb y llwybr, tresbasiad, arwyddion camarweiniol, llystyfiant wedi gordyfu a mynegbyst ar goll. Bydd problem dan y categori hwn yn cael ei harchwilio o fewn 4 wythnos o dderbyn cwyn.
3	Materion cynnal a chadw a mân faterion diffyg cydymffurfio Er enghraifft: gwella camfeydd / gatiau, problemau draenio, gwella arwyneb y llwybr, cyfeirbwyntiau. Bydd problem dan y categori hwn yn cael ei harchwilio o fewn 6 wythnos o dderbyn cwyn.
4	Ceisiadau / ymholiadau anstatudol Er enghraifft: ceisiadau am arwyddion ychwanegol, gwelliannau hab fod o dan y blaenoriaethau uwch. Bydd materion dan y categori hwn yn cael eu harchwilio yn ôl disgrisiwn y swyddog perthnasol.

D.S. Mae'r graddfeydd amser a nodir yma yn cyfeirio at amser swyddog wrth edrych ar y broblem, nid trefnu'r gwaith atgyweirio neu gau'r llwybr dros dro. Mae graddfeydd amser gwaith yn dibynnu ar faint y broblem a'r brys, argaeledd contractwyr ac adnoddau.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth ddelio â materion, gan gynnwys gorfodi sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus wastad yn awyddus i drafod materion cyffredinol neu problemau penodol. Rydym ni'n credu bod atal yn well na gwella a bod ein rolau ni yn cynnwys gweithio gyda thirfeddianwyr a defnyddwyr.

Weiren bigog ar draws hawl dramwy gyhoeddus

Mae codi ffens weiren bigog neu osod weiren bigog ar draws hawl dramwy gyhoeddus heb ffordd ddiogel o'i chroesi yn drosedd. Mae'n rhwystru'r hawliau tramwy, yn niwsans ac yn beryglus i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r hawl dramwy. Yn gyntaf, bydd y Cyngor yn gofyn i berchennog y ffens dynnu'r ffens ar unwaith neu, os yw'r ffens yn angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth, i ddarparu ffordd addas i barhau ar hyd y llwybr. Byddai'r olaf yn gofyn am awdurdodiad y Cyngor gan y byddai'n golygu codi strwythur newydd (gwelwch yr adran ar gamfeydd a gatiâu). Os yw'r perchennog yn methu cytuno ar un o'r camau gweithredu uchod, bydd y Cyngor yn tynnu'r weiren bigog sy'n effeithio ar y llwybr heb roi rhybudd pellach. Os yw'r perchennog yn parhau i droseddu yn y modd hwn, bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau i'w erlyn.

Weiren bigog ar bwys hawl dramwy gyhoeddus

Pan fo ffens weiren bigog ar bwys hawl dramwy gyhoeddus, fe all fod yn beryglus ac yn niwsans i aelodau o'r cyhoedd. Os yw'r Cyngor yn credu bod y weiren bigog yn achosi perygl i'r cyhoedd, yna bydd yn gofyn i'r perchennog wneud y ffens yn fwy diogel i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr. Os yw'r perchennog yn gwrthod neu'n methu gwneud hyn, bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad cyfreithiol i'r perchennog dynnu ffynhonnell y perygl o fewn cyfnod penodol.

Teirw ac anifeiliaid peryglus

Mae cadw tarw dros 10 mis oed ar ei ben ei hun a/neu unrhyw darw brîd godro (hyd yn oed os oes gwartheg / heffrod yn y cae) mewn cae sydd â hawl dramwy gyhoeddus ynddo yn drosedd. Mae teirw dan 10 mis oed neu deirw brîd eidion cydnabyddedig a chyda gwartheg/heffrod yn y cae gyda nhw yn eithriad i'r rheol hon.

Os yw unrhyw anifail, y mae'r perchennog yn gwybod ei fod yn beryglus, yn achosi anaf i aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio hawl dramwy gyhoeddus yna mae'n bosibl bod trosedd wedi'i chyflawni ac y gall y sawl sydd wedi'i anafu erlyn y perchennog.

Rhoddir gwybod i dirfeddianwyr beth yw eu rhwymedigaethau dan Adran 59 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn dilyn unrhyw adroddiad.

Tir peryglus wrth ymyl hawl dramwy gyhoeddus

O bryd i'w gilydd bydd y Cyngor yn dod ar draws peryglon heb eu ffensio ar dir cyffiniol sy'n peryglu defnyddwyr llwybrau. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddiogelu defnyddwyr llwybrau rhag peryglon o'r fath a bydd yn y lle cyntaf yn cysylltu â'r tîrfeddiannwr i'w annog i dynnu'r perygl neu roi ffens o'i amgylch. Gall y Cyngor ofyn i berchennog y tir peryglus wneud y gwaith angenrheidiol drwy gyflwyno hysbysiad. Os nad yw'r tîrfeddiannwr yn cydymffurfio â'r hysbysiad, yna gall y Cyngor wneud y gwaith ei hun ac adennill y costau gan y tîrfeddiannwr.

Cŵn ar hawliau tramwy cyhoeddus

Caniateir cŵn ar hawliau tramwy cyhoeddus, ond dylent fod dan reolaeth drwy'r adeg. Nid oes gofyniad cyfreithiol i gadw cŵn ar dennyn. Mae defnyddwyr sy'n gadael i gŵn grwydro oddi ar hawl dramwy yn tresmasu ac mae rhwydd hynt i dirfeddianwyr ofyn iddynt adael. Pan fo'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth am gŵn yn poeni da byw, baw cŵn neu fater arall yn ymwneud â chŵn ar hawliau tramwy cyhoeddus, darperir arwyddion i dirfeddianwyr. Pan fo problem fawr yn codi, cysylltir â thîm Gorfodi Amgylcheddol y Cyngor.

Ffensys trydanol ar draws hawl dramwy gyhoeddus

Mae codi ffens drydanol ar draws hawl dramwy gyhoeddus heb ffordd ddiogel o'i chroesi yn drosedd. Mae'n rhwystro'r hawliau tramwy, yn niwsans ac yn beryglus i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r hawl dramwy. Yn gyntaf, bydd y Cyngor yn gofyn i'r perchennog dynnu'r ffens ar unwaith neu, os yw'r ffens yn angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth, i ddarparu ffordd addas i barhau ar hyd y llwybr. Os yw'r perchennog yn methu cytuno ar un o'r camau gweithredu uchod, bydd y Cyngor yn tynnu'r ffens drydanol sy'n effeithio ar y llwybr heb roi rhybudd pellach. Os yw'r perchennog yn parhau i droseddu yn y modd hwn, bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau erlyn.

Ffensys trydanol ar bwys hawl dramwy gyhoeddus

Pan fo ffens drydanol ar bwys hawl dramwy gyhoeddus, fe all fod yn beryglus ac yn niwsans i aelodau o'r cyhoedd. Os yw'r Cyngor yn credu bod y ffens drydanol yn achosi perygl i'r cyhoedd, yna bydd yn gofyn i'r perchennog wneud y ffens yn ddiogel i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr. Os yw'r perchennog yn gwrthod neu'n methu gwneud hyn, bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad cyfreithiol i'r perchennog dynnu ffynhonnell y perygl o fewn cyfnod penodol. Bydd methu â chydymffurfio â'r hysbysiad yn golygu y bydd y Cyngor yn tynnu'r ffens ac yn adennill y costau gan y perchennog.

Tresbasiad

Mae tresbasiad yn rhwystro'r briffordd yn anghyfreithlon. Pan fo tresbasiad wedi digwydd neu pan honnir bod tresbasiad wedi digwydd, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ymchwilio i'r mater a chymryd y camau gweithredu canlynol.

Ystyrir a yw tresbasiad wedi digwydd ac a yw'n effeithio'r llwybr yn sylweddol, neu'n mynd i effeithio'r llwybr yn y dyfodol. Fe all hyn olygu gwaith ymchwil helaeth, gan gynnwys ymchwil hanesyddol i ganfod lled ddilys y briffordd (gweler lled hawliau tramwy cyhoeddus). Os dangosir er boddhad y Cyngor bod tresbasiad wedi digwydd ond nad yw hynny wedi effeithio'n sylweddol ar y llwybr neu hawl y defnyddwyr, gall y Cyngor ystyried y mater yn un *de minimis*. Dan yr achosion hyn bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r person sy'n gyfrifol ei fod wedi gwneud rhywbeth anghyfreithlon ac y gall unrhyw dresbasiad pellach arwain at gamau gorfodi i gael gwared ar yr holl dresbasiadau.

Os yw'r Cyngor yn fodlon bod y tresbasiad yn cael effaith sylweddol ar hawl dramwy a hawliau defnyddwyr, defnyddir y dull canlynol i gael gwared arno. Yn gyntaf, tynnir sylw'r person sy'n gyfrifol at yr amgylchiadau a bydd gofyn iddo dynnu'r tresbasiad o fewn cyfnod penodol (yn unol â phenderfyniad y Cyngor). Os nad yw hyn yn arwain at dynnu'r tresbasiad, bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r rhwystr (gweler rhwystrau).

Ffensys wrth ymyl hawliau tramwy cyhoeddus

Os yw tîrfeddiannwr yn dymuno cau hawl dramwy gyhoeddus gyda waliau neu ffensys ar bob ochr, mae'n rhaid iddo gysylltu â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus ymlaen llaw i sicrhau nad yw'n tresbasu ar led gyfreithiol y llwybr. Bydd cynnal a chadw llwybr sydd wedi'i chau yn y modd hwn yn gyfrifoldeb ar y tîrfeddiannwr.

Cloddiau a choed wrth ymyl hawliau tramwy cyhoeddus

Mae perthi a choed ar hyd ochrau hawliau tramwy cyhoeddus yn gyfrifoldeb ar y tîrfeddiannwr neu'r meddiannydd, yn hytrach na'r Awdurdod priffyrdd. Os yw clawdd yn rhwystro neu'n hongian dros hawl dramwy gyhoeddus, mae gan y Cyngor hawl i dynnu'r gordyfiant i atal y rhwystr i gerddwyr a marchogion. Yn ychwanegol, mae gan y Cyngor y pŵer i ofyn i berchnogion dorri cloddiau sydd wedi gordyfu o fewn 14 diwrnod.

Cynnal a chadw pontydd, cylfatiau ac adeileddau eraill

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y rhan fwyaf o bontydd, ond pan fo llwybr cyhoeddus yn croesi pont, sydd â hawliau cerbydol preifat, efallai bod y tirlfeddiannwr hefyd yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ac atgyweirio penodol. Mae'r Awdurdod Rheilffordd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dyfrffyrdd Prydain yn atebol am waith cynnal a chadw llawer o'u hadeileddau.

Arwyddion a hysbysiadau camarweiniol ar hawliau tramwy cyhoeddus

Gall arwyddion camarweiniol ac anghyfreithlon atal pobl rhag ymarfer eu hawliau cyfreithiol i ddefnyddio llwybr. Yn dilyn derbyn gwybodaeth am arwyddion camarweiniol ar hawl dramwy gyhoeddus, rhoddir gwybod i dirfeddianwyr am ru rhwymedigaeth dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Gall y Cyngor ofyn i dirfeddianwyr dynnu unrhyw arwydd neu hysbysiad camarweiniol. Bydd methu â gwneud hyn yn gallu arwain at gamau gweithredu uniongyrchol a/neu erlyniad: bydd yr holl gostau rhesymol yn cael eu hadennill pan fo modd.

Rhwystrau

Os yw'r rhwystr yn fychan, yna dylai'r perchennog ei dynnu. Os nad yw'r perchennog yn tynnu'r rhwystr o fewn cyfnod o amser a ystyrir yn rhesymol gan swyddogion y Cyngor, cymerir camau gorfodi yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael dan adran 143 Deddf Priffyrdd 1980 i dynnu'r rhwystr. Fel rheol bydd costau'r camau gorfodi yn cael eu hadennill gan y troseddwr. Os cyflawnir y drosedd eto, ystyrir erlyn y troseddwr. Mae'n rhaid tynnu'r rhwystr cyn y gall y Cyngor ystyried unrhyw gais i wyro'r llwybr.

Os yw'r rhwystr yn un sylweddol ac yn gostus neu'n anymarferol ei dynnu, bydd gofyn i'r perchennog wneud cais i wyro'r llwybr yn hytrach na chael gwared ar y rhwystr. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r perchennog sicrhau bod llwybr amgen ar gael yn ystod y broses o wyro'r llwybr.

Os nad yw'r perchennog yn cydnabod y broblem, neu os yw'n methu cydweithredu gyda'r Cyngor i ddatrys y broblem drwy naill ai wyro'r llwybr neu dynnu'r rhwystr, yna bydd y methiant hwn yn cael ystyriaeth ddwys. Dan yr amgylchiadau hyn rhoddir ystyriaeth i erlyniad a derbyn gorchymyn llys ynadon i dynnu'r rhwystr.

Os yw cais i wyro llwybr yn aflwyddiannus, yna bydd y Cyngor yn disgwyl i'r perchennog sicrhau bod y llwybr gwreiddiol ar gael i ddefnyddwyr. Os yw'r perchennog yn methu â gwneud hyn, yna bydd y Cyngor yn ystyried erlyn a derbyn gorchymyn llys ynadon i dynnu'r rhwystr.

Aredig a chnydau

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag adrannau 134 a 137 Deddf Priffyrdd 1980. Pan fo tîrfeddiannwr yn aredig llwybr troed neu llwybr ceffylau, mae'n rhaid adfer y llwybr o fewn 14 diwrnod i aflonyddu'r arwyneb, a 24 awr ar gyfer unrhyw aflonyddu pellach fel llyfnu a drilio.

Pan fo cnwd (ac eithrio gwair) yn cael ei blannu neu ei hau ar dir gyda hawl dramwy gyhoeddus arno ac yn gwneud y llwybr yn anghyfleus, mae'n ddyletswydd ar y meddiannydd i sicrhau bod llinell yr hawl dramwy gyhoeddus yn cael ei nodi a ddim llai na'r lled lleiaf. At hyn, mae'n ddyletswydd ar y meddiannydd i atal y cnwd rhag tresmasu ar y llwybr yn ystod y tymor tyfu.

Fel rheol bydd y Cyngor yn cymryd camau gweithredu uniongyrchol i dynnu cnwd neu adfer llwybrau y mae tîrfeddiannwyr wedi methu yn eu dyletswydd dan adrannau 134 a 137 Deddf Priffyrdd 1980. Bydd y Cyngor yn cymryd y camau gorfodi priodol a nodir yn Deddf Priffyrdd 1980 gamau gweithredu dan ei bwerau cyfraith gyffredin. Rhoddir ystyriaeth i erlyn ad-droseddwyr. Adenillir yr holl gostau rhesymol.

Arwyddbyst a chyfeirbwyntiau

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu harwyddo'n briodol yn unol â'u statws cyfreithiol cywir pan fo'r llwybr yn garegog. Bydd arwyddbyst newydd fel rheol ar ffurf mynegbyst galfanedig gyda saeth i ddangos cyfeiriad y llwybr a statws yr hawl dramwy. Bydd y Cyngor yn darparu cyfeirbwyntiau priodol neu arwyddion eraill fel y bo'n briodol os yw'n anodd canfod llwybr yr hawl dramwy.

Camfeydd a gatiâu

Mae adran 146 Deddf Priffyrdd 1980 yn rhoi dyletswydd ar dirfeddiannwyr i gynnal a chadw gatiâu a chamfeydd mewn cyflwr rhesymol. Fodd bynnag, polisi presennol y Cyngor yw cyflenwi a gosod gatiâu a chamfeydd ar ran tîrfeddiannwyr. Dyma'r dull gorau i wella mynediad i gefn gwlad, h.y. drwy ddarparu safon gyson o ddodrefn mynediad sy'n cyrraedd y safonau Prydeinig (pan fo'n bosibl).

Wrth ystyried amnewid neu osod gatiâu a chamfeydd o'r newydd, bydd y Cyngor yn dewis yr opsiwn lleiaf cyfyngol yn dilyn yr egwyddor blaenoriaeth o fwlch, giât, camfa. Gall y Cyngor awdurdodi gosod gatiâu a chamfeydd newydd os oes eu hangen at ddibenion rheoli da byw.

Arwyneb

Mae arwyneb y rhan fwyaf o hawliau tramwy cyhoeddus yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Priffyrdd, ac nid yw diddordeb y tiffeddiannwr yn ymestyn yn uwch na'r isbridd. Bydd y Cyngor yn cynnal a chadw arwyneb hawliau tramwy cyhoeddus yn briodol, yn dibynnu ar gategori a statws y llwybr, ac yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas i ddefnyddwyr.

Bydd llwybrau sydd â hawliau cerbydol preifat drostynt yn cael eu cynnal a'u cadw i'r lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer eu defnyddio gan y cyhoedd. Bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi pan fo'n briodol os yw arwyneb hawl dramwy gyhoeddus yn cael ei difrodi'n anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod llystyfiant sy'n tyfu ar hawl dramwy gyhoeddus yn cael ei gadw dan reolaeth a ddim yn gwneud y llwybr yn anodd ei ddefnyddio. Bydd y Cyngor yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw blynyddol yn ôl yr angen, yn dibynnu ar y llwybr a'r llystyfiant.

Lled hawliau tramwy cyhoeddus

Pan nad oes lled wedi'i nodi yn y datganiad swyddogol, nid oes rheol gyffredin yn berthnasol o ran lled hawliau tramwy cyhoeddus a bydd y lled yn fater i'w benderfynu arno yn seiliedig ar y canlynol. Efallai bod y lled wedi'i nodi mewn dogfen hanesyddol neu fe all fod y lled rhwng ffiniau fel cloddiau neu ffensys. Fel arall, gall y lled fod yr hyn y mae'r cyhoedd wedi arfer ag o dros y blynyddoedd. Os nad oes modd penderfynu ar y lled gan ystyried yr uchod, bydd y Cyngor yn gofyn am led resymol i alluogi dau gerddwr gerdded heibio ei gilydd. O ran llwybr troed, gall hyn fod yn 2 fetr; 3 metr ar gyfer llwybr ceffylau a 5 metr ar gyfer cilffordd.

Mae lled lleiaf statudol yn berthnasol i bob hawl dramwy gyhoeddus mewn perthynas ag aredig ac adfer llwybr ar ôl aredig. Sef:

	Ymyl y cae	Ar draws y cae
Llwybr troed	1.5 metr	1 metr
Llwybr ceffylau	3 metr	2 fetr
Cilffordd gyfyngedig a chilffordd agored i bob traffig	3 metr	5 metr

Erllyn

Mae erlyn yn rhan bwysig o'r broses orfodi, ac yn niffyg dim arall bydd y Cyngor yn cymryd camau i erlyn. Pan fo digon o dystiolaeth, bydd y Cyngor yn erlyn troseddwr dan amheuaeth os oes sail i gredu bod y drosedd yn debygol o barhau neu ddigwydd eto, a phan fo'n briodol gwneud hynny i atal eraill.

Ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ystyried yr holl amgylchiadau yn unol â chod ymarfer Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Gall erlyn fod yn fwy priodol pan fo mwy nag un o'r materion canlynol yn berthnasol:

- Risg sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd
- Tor-cyfraith difrifol, neu pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno sy'n nodi y bydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd os na chydymffurfir â'r gofynion
- Methu ag ystyried cyngor neu gyfarwyddiadau neu gymryd camau unioni
- Hanes o droseddu

Ystyriaethau ychwanegol

- A yw erlyn er budd y cyhoedd?
- A yw'r dystiolaeth yn debygol o arwain at gollfarn?
- A yw'r gollfarn yn debygol o arwain at ddirwy sylweddol neu gosb arall?
- A yw'r drosedd dros ardal eang o fewn ardal y Cyngor?

Bydd pob achos yn destun proses adolygu barhaus i sicrhau bod lefel y camau gorfodi yn briodol. Unwaith y mae'r Cyngor wedi penderfynu erlyn, bydd yn parhau â'r broses honno heb oedi.

Ystyrir Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus yn ddewis amgen derbyniol yn lle camau gorfodi pan fo'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

1. Nid yw'r rhwystr yn ymddangos fel pe bai'n ymgais bwriadol i amharu ar ddefnydd y cyhoedd o'r llwybr.
2. Nid yw'r rhwystr yn rhywbeth diweddar.
3. Ym marn swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus CBSW, mae llwybr amgen ar gael a fydd yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth PPO berthnasol.

Diogelu Hunaniaeth

Ni fydd y Cyngor yn datgelu enwau na chyfeiriadau aelodau o'r cyhoedd sy'n rhoi gwybod am rwystrau ac anawsterau eraill yn gyfrinachol heb dderbyn eu caniatâd i wneud hynny ymlaen llaw, ac eithrio pan fydd yn rhaid i'r Cyngor wneud hynny i gydymffurfio â'r gyfraith.